

Rhagair

Ers dros ddeng mlynedd ar hugain mae'r 'Llyfr Gwyrdd' wedi bod yn adnodd gwerthfawr iawn ar gyfer yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru: cafodd ei ddefnyddio mewn gwasanaethau Cymun cydeglwysig yn achlysurol, ac yn fwy rheolaidd mewn Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol ar hyd a lled Cymru. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf gan Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol fel ffurf gwasanaeth a fyddai'n dderbyniol gan bob eglwys o fewn y Cyfamod, a daeth yn llyfryn cyfarwydd a defnyddiol iawn dros y cyfnod hwnnw; yn wir, enillodd barch a chlod y tu hwnt i ffiniau Cymru.

Bu teimlad ers tro bod angen ei ddiwygio a'i ddiweddarau, a phan ofynnwyd i Banel Litwrgi'r Comisiwn baratoi trefn newydd ar gyfer y Cydgynulliad yn Aberystwyth ym mis Hydref 2012, achubwyd y cyfle i wneud hynny. Ffrwyth llafur y Panel hwnnw yw'r Drefn newydd hon, ac yr ydym yn ei chymeradwyo'n gynnes i'r eglwysi. Mae'r Drefn ei hun yn dilyn y patrwm cydnabyddedig, sef: Pobl Dduw'n Ymgynnull, Cyhoeddi'r Gair, yr Ymbiliau, y Tangnefedd, y Diolch, Rhannu'r Bara a'r Gwin, a'r Anfon Allan. Er hynny, rhoddir digon o gyfle o fewn y Drefn ar gyfer amrywiaeth naturiol, ac rydym wedi ceisio osgoi'r duedd i or-gyfarwyddo. Fel y dywedir yn y Rhagair i Drefn 'Y Cymun Sanctaidd' (1981): 'Nid yw'r hyn sy'n amlwg mewn un traddodiad bob amser yn amlwg mewn traddodiad arall.' Uwchlaw popeth arall, rydym wedi ceisio darparu deunydd newydd a ffres.

Wrth ddod o flaen Duw yn y Sacrament dylem fod yn effro i anghenion y byd o'n hamgylch ac yn ymwybodol o gydraddoldeb pob un gerbron Duw, a'r angen am gyfiawnder cymdeithasol a pharch tuag at greadigaeth Duw. Nid pethau ymylol mo'r rhain ond rhan hanfodol o'n bywyd sacramentaidd fel Cristnogion, oherwydd rydym yn byw ein bywydau'n wastad yng nghwmni Crist ac yng nghwlwm ei dangnefedd. Gosodir y cyfan yng nghyd-destun cenhadaeth ac undeb yr eglwys, a hynny wedi ei ddaearu ym mywyd Cymru.

Deuwn ynghyd o wahanol draddodiadau litwrgiaidd, a cheisir adlewyrchu hynny yn y Drefn hon. Hyderwn nad oes dim ynnddi sy'n annerbyniol yn ddiwinyddol nac yn peri tramgwydd i bobl wrth adrodd y geiriau. Tra'n bod yn sensitif i'r ddeubeth hynny, roeddem yn awyddus ar yr un pryd i greu rhywbeth newydd, a fyddai ar y naill law yn deilwng o'n hetifeddiaeth ysbrydol gyfoethog ac ar y llaw arall yn addas a pherthnasol ar gyfer y ganrif newydd hon.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i aelodau'r Panel am eu hymroddiad a'u gonestrwydd. Nid pob amser yr oeddem yn cytuno â'n gilydd, ond hyderwn fod yr hyn a ddeilliodd o'n cyd-drafod a chydweiddio yn dderbyniol i'r gwahanol eglwysi ac yn gyfrwng i ogoneddu Duw yn ei Fab am flynyddoedd eto i ddod.

GLYN TUDWAL JONES

Cadeirydd, Panel Litwrgi Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol

1 POBL DDUW'N YMGYNNULL

Galwad i Addoli

Gras ein Harglwydd Iesu Grist
a chariad Duw
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fyddo gyda ni oll.

Amen.

Yng Nghrist Iesu yr ydym i gyd yn blant Duw trwy ffydd.
Nid oes bellach Iddewon a Groegiaid, caeth a rhydd, gwryw a benyw:
Yr ydym oll yn un yng Nghrist Iesu.

I bob un sydd yng Nghrist:
Y mae creadigaeth newydd.

Gellir canu emyn.

Gweddi wrth Ddynesu a Chyffes

Molwn ac addolwn di, Dduw, y Creawdwr:
trwy dy gariad a'th allu daeth popeth i fod
a pharhau mewn bod.

Molwn ac addolwn di, Iesu Grist, y Gwaredwr:
trwy dy fywyd a'th farwolaeth ar y groes
fe'n cymodir â'r Tad ac â'n gilydd;
trwy dy atgyfodiad oddi wrth y meirw
fe'n genir ni o'r newydd i obaith bywiol.

Molwn ac addolwn di, Ysbryd Glân, Rhoddwr bywyd:
trwy dy dân y ganed ac y bedyddiwyd yr eglwys,
a thrwy ddoniau dy ras yr adeiledir yn gyson gorff Crist.

Gyda'r eglwys oll ar y ddaear ac yn y nefoedd
molwn ac addolwn di,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
un Duw am byth.

Dyweddodd Iesu: "Dewch ataf fi,
bawb sy'n flinedig ac yn llwythog,
ac fe roddaf fi orffwystra i chwi.
Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf,
oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon,
ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau.
Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn."

Cyffeswn ein pechodau:

Gelwir ni yn gorff Crist.
Nid ydym yn deilwng o'i enw.

Cyhoeddodd Iesu'r gwirionedd.
Yr ydym ni'n ei guddio.

Agorodd Iesu'r ffordd at y Tad.
Yr ydym ni'n cau pobl allan.

Gweddiodd Crist am i'w eglwys fod yn un.
Yr ydym ni'n dal yn rhanedig.

Collfarnodd Crist y cyfoethog a bendithio'r tlawd.
Yr ydym ni'n cilio rhag gofynion cyfiawnder.

Carodd Crist ei elynion.
Nid ydym ni'n caru neb ond ein ffrindiau.

Fe'i rhoddodd Crist ei hun dros y byd.
Yr ydym ni'n swatio yn ein heglwysi.

Maddau inni, Arglwydd.
Gwna ni'n unwedd ag Iesu.
Bydded i bopeth a wnawn darddu o'n hundod ynddo ef.
Bydded i'w Ysbryd adnewyddu a thrawsnewid y byd.
Amen.

Dyma air i'w gredu,
sy'n teilyngu derbyniad llwyr:
"Daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid".
Dywedd Iesu: "Maddeuwyd dy bechodau".
Y mae hefyd yn dweud: "Tyrd, canlyn fi".
I Dduw y bo'r diolch.

*Gellir dweud neu ganu'r Gloria a ganlyn
neu Gloria arall neu ganu emyn addas.*

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd.
Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.
Arglwydd Dduw, Frenin nefol,
Dduw Dad Hollalluog.**

**O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist;
O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,
sy'n dwyn ymaith bechod y byd,
trugarha wrthym;
tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,
derbyn ein gweddi.**

**Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd;
ti yn unig yw'r Arglwydd;
ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân,
sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad.
Amen.**

*Naill ai
Gellir dweud gweddi neu golect ¹.*

Neu
Dad nefol,
fe'n gelwaist ynghyd yng Nghorff dy Fab Iesu Grist
i barhau ei waith o gymodi
ac i'th ddatguddio di i'r byd:
dyro inni'r dewrder i orchfygu ein hofnau
ac i geisio'r undod hwnnw sy'n rhodd dy ewyllys di:
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw byth bythoedd.
Amen.

2 CYHOEDDI'R GAIR

Darlleniad o'r Hen Destament

Gellir dweud neu ganu Salm

Yr Epistol

Yr Efengyl

Gellir gwahodd y bobl i sefyll pan ddarllenir yr Efengyl.

Gall y darllenydd ddweud

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl ...
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Ar ôl yr Efengyl gall y darllenydd ddweud

Y mae Duw'n llefaru wrthym mewn llawer modd:
Diolch i Dduw am Iesu, Gair bywiol Duw.

Y Bregeth

Datgan y Ffydd

Gadewch inni ddatgan ein ffydd.

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd y byd.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

3 YR YMBILIAU

Defnyddir un o'r ffurfiau a ganlyn.

Ffurf 1

Gall y gweinidog weddio yn ei eiriau ei hun dros yr eglwys a'r byd.

Ffurf 2

Gellir gofyn i'r bobl weddio dros:

- *y greadigaeth*
- *heddwch a chyfiawnder byd-eang*
- *anghenion Cymru*
- *anghenion y gymuned leol*
- *yr eglwys fyd-eang a lleol*
- *pawb sydd mewn angen
a rhoi diolch am fywydau'r ymadawedig.*

Dylid cadw distawrwydd ar ôl pob deisyfiad.

Gellir defnyddio ymatebion addas, er enghraifft:

Dduw cariadus:

lachâ ni a gwna ni'n un.

Ffurf 3

Gellir defnyddio'r gweddïau hyn yn gyflawn neu'n rhannol.

Dduw trugarog,
yn Iesu
fe gerddaist ein strydoedd,
rhannu'n bywydau,
adnabod ein calonnau,
a dioddef dros gariad.
Cyflwynwn i ti ein gweddïau
dros yr eglwys a'r byd.

Dduw cariadus:

lachâ ni a gwna ni'n un.

Gweddïwn dros yr eglwys yn ei holl amrywiaeth,
ar i'r Ysbryd Glân ein tanio ag angerdd Iesu
i lefaru'n eofn a thyner newyddion da dy ras,
i gysuro'r curedig a'r briwedig o galon,
ac i ryddhau'r blinderog a'r gorthrymedig.

Dduw cariadus:

lachâ ni a gwna ni'n un.

Gweddïwn dros eglwysi sydd wedi ymrwymo i gydweithio,
dros eglwysi egniol sy'n tyfu ac yn ffynnu
a thros eglwysi blinedig sy'n llafurio ac yn digalonni.
Gweddïwn dros gynlluniau dychmygus a phartneriaethau mentrus,
dros brosiectau newydd a gweithgareddau hirsefydlog.
A diolchwn fod arwyddion dy deyrnas i'w gweld
ym mhob cymuned Gristnogol ffyddlon a gwasanaethgar.

Dduw cariadus:

lachâ ni a gwna ni'n un.

Wrth inni geisio ymgorffori dy werthoedd – cyfiawnder, rhyddid a thangnefedd,
dyro inni'r doethineb i ddirnad dy ewylllys a'r gallu i'w wneud.
Mewn byd o gelwyddau, bydded inni ddweud y gwir.
Mewn byd o drachwant, bydded inni roi heb hunanoldeb.
Mewn byd o dywallt gwaed, bydded inni fyw'n ddi-drais.
Mewn byd o ddialedd, bydded inni hyrwyddo cymod.

Dduw cariadus:

lachâ ni a gwna ni'n un.

Gweddïwn dros y byd a thros Gymru.
Gweddïwn dros y tlawd a'r digartref,
dros bawb a wthir i'r cyrion ac a orthrymir;
dros bawb sy'n fethedig oherwydd afiechyd neu henaint,
a thros bawb a ddirdynnir gan boen meddwl neu anobaith neu ofn.
Gweddïwn dros bawb y mae eu perthynas ag eraill dan straen neu wedi torri,
a thros bawb sy'n unig neu mewn profedigaeth neu'n marw.
Bydded i bob un brofi bywyd yn ei holl gyflawnder;
bydded pob cymuned yn fan lle y bydd pobl yn ffynnu.

Dduw cariadus:

lachâ ni a gwna ni'n un.

Dduw trugarog,
yn nhawelwch ein calonnau,
cyflwynwn iti ein gweddïau dyfnaf ...

Distawrwydd

Sicrha ni o'th bresenoldeb,
a bydded i'th gariad amgylchynu a chryfhau
pawb y buom yn gweddïo drostynt.

Dduw cariadus:
lachâ ni a gwna ni'n un.

Cyflwynwn y gweddïau hyn
yn enw Crist.
Amen.

Ar ddiwedd yr Ymbiliau, gall y Gweinidog sy'n Llywyddu ddweud:

Nid bwrdd yr eglwys yw hwn ond bwrdd yr Arglwydd.

**Arglwydd, deawn at dy fwrdd,
gan ymddiried yn dy drugaredd
ac nid yn ein daioni ein hunain.
Nid ydym ni'n deilwng
gymaint ag i gasglu'r briwsion dan dy fwrdd di,
ond dy natur di yw bod bob amser yn drugarog,
ac yr ydym yn dibynnu ar hynny.
Portha ni felly â chorff a gwaed
lesu Grist, dy Fab,
fel y cawn fyw am byth ynddo ef
ac yntau ynom ninnau.
Amen.**

4 Y TANGNEFEDD

Gadewch inni ddathlu'r ŵyl lawen hon.

Dywedodd Iesu, "Daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin,
o'r gogledd ac o'r de,
a chymryd eu lle yn y wledd yn nheyrnas Dduw".

Y mae Crist, Tywysog tangnefedd,
yn dymchwel y muriau sy'n ein gwahanu.

Bydded tangnefedd yr Arglwydd bob amser gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Gadewch inni roi i'n gilydd arwydd o dangnefedd.

*Gellir cyfnewid arwydd o dangnefedd.
Gellir canu emyn, salm neu anthem.*

5 Y DIOLCH

Gellir cyflwyno offrwm y bobl.

Deuir â bara a gwin i'r bwrdd (neu, os ydynt ar y bwrdd yn barod, eu dadorchuddio).

Arglwydd a Rhoddwr popeth da,
deuwn â bara a gwin iti at ein cymun,
a bywydau a rhoddion at dy deyrnas,
y cyfan i'w trawsffurfio trwy dy ras a'th gariad,
a ddatguddiwyd yn Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Gellir darllen Geiriau'r Sefydlu: 1 Corinthiaid 11. 23-26.

Oherwydd fe dderbyniais i oddi wrth yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi: i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymryd bara; ac wedi iddo ddiolch, fe'i torrodd, a dweud, "Hwn yw fy nghorff, sydd er eich mwyn chwi. Gwnewch hyn er cof amdanaf."

Yr un modd hefyd fe gymerodd y cwpan, ar ôl swper, gan ddweud, "Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i. Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef, er cof amdanaf." Oherwydd bob tro y byddwch yn bwyta'r bara hwn ac yn yfed y cwpan hwn, yr ydych yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, hyd nes y daw.

Y Weddi Ewcharistaidd

Y mae'r Arglwydd yma.
Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Dyrchefwch eich calonnau.
Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Molwn di, Dduw graslon,
am i ti greu pob peth,
am i ti ein llunio ni o bridd y ddaear ar dy ddelw dy hun,
ac am i ti ymddiried dy fyd i'n gofal.

Diolchwn i ti am na throaist ymaith
pan bechodd pobl gyntaf.
Gelwaist Abraham a Sara
i fod yn dad ac yn fam ffydd a phererindod.
Anfonaist Moses i ryddhau'r gorthrymedig
ac i lunio cymuned rydd.
Ysbrydolaist broffwydi i lefaru'r gwirionedd wrth y cedyrn
ac i alw cenhedloedd i edifarhau.
Llenwaist feirdd â chân,
athrawon â doethineb,
a gweledyddion â gweledigaethau o nefoedd newydd a daear newydd.

Ond yn bennaf diolchwn am i ti, yng nghyflawnder yr amser,
anfon dy unig Fab,
Iesu Grist, plentyn Mair,
i rannu dy gariad, i ddysgu ac i iacháu,
i fendithio'r gwylaidd a herio'r grymus,
i ddioddef angau ar y groes,
ac i gyfodi drachefn er ein hiachawdwriaeth.

Hepgorir y paragraff a ganlyn os defnyddir rhagymadrodd priod.²

[Diolchwn am i Iesu ein cymodi â thi ac â'n gilydd,
iddo faddau inni ein holl feiau,
rhoi i ni fywyd newydd
a'n gwneud yn eglwys iddo ar y ddaear.]

Felly, gyda chalonnau llawen a diolchgar,
ymunwn â'r angylion, y saint
a phob creadur yn y nefoedd ac ar y ddaear,
i ganu'r emyn gogoneddus o fawl:

**Sanctaid, sanctaid, sanctaid Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

Felly, Dad nefol, mewn moliant a diolch,
coffawn yn awr aberth ein Harglwydd Iesu Grist,
cyhoeddwn ei atgyfodiad buddugoliaethus,
dathlwn ein gwaredigaeth trwyddo ef,
a disgwyliwn ei ddyfod mewn gogoniant.

Ar y nos y bradychwyd ef cymerodd fara,
ac wedi diolch i ti,
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion gan ddweud,
"Cymerwch, bwytwch,
hwn yw fy nghorff, a roddir drosoch;
gwnewch hyn i gofio amdanaf."

Yn yr un modd, ar ôl swper, cymerodd y cwpan gan ddweud,
"Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i;
yfwch o hwn, bawb ohonoch,
i gofio amdanaf."

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd.

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Dad cariadus,
wrth inni ddathlu ein hundod yng Nghrist
a disgwyl am adnewyddiad y greadigaeth,
offrymwn i ti y bara hwn a'r gwin hwn,
lluniaeth gyffredin yr wyt ti yn ei wneud yn sanctaidd,
yn fara'r bywyd ac yn win iachawdwriaeth.

Deued dy Ysbryd Glân arnom ni ac ar y rhoddion hyn,
fel y porthir ni â chorff a gwaed Crist
ac, wrth inni ein cyflwyno ein hunain,
y cawn adnabod gwir bresenoldeb yr Iesu byw
a'n nerthu i'w ddilyn ef a'th wasanaethu di.

Trwyddo ef, ynddo ef a chydag ef,
yn undod yr Ysbryd Glân,
i ti, Dad hollalluog, y byddo'r gogoniant
byth bythoedd.

Amen.

Fel y dysgodd ein Gwaredwr ni, yr ydym yn gweddïo:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth.
Amen.**

6 RHANNU'R BARA A'R GWIN

Y mae'r Gweinidog sy'n Llywyddu yn torri'r bara.

Y bara yr ydym yn ei dorri,
cymun corff Crist ydyw.

**Yr ydym ni sy'n llawer yn un corff,
oherwydd yr ydym i gyd yn rhannu'r un bara.**

Y mae'r Gweinidog sy'n Llywyddu yn codi'r cwpan.

Cwpan y fendith yr ydym yn ei fendithio,
cymun yng ngwaed Crist ydyw.

Rhoddion sanctaidd Duw i holl bobl Dduw.

**lesu Grist sy'n sanctaidd,
lesu Grist yw'r Arglwydd,
er gogoniant Duw Dad.**

*Y mae'r Gweinidog sy'n Llywyddu, y gweinidogion a'r bobl yn derbyn y cymun.
Gweinyddir y sacrament â'r geiriau hyn*

Corff Crist, bara'r bywyd. **Amen.**
Gwaed Crist, y wir winwydden. **Amen.**

Gellir bendithio'r rhai hynny nad ydynt am gymuno.

Cedwir distawrwydd.

Gellir canu emyn.

Bwyteir ac yfir gyda pharch unrhyw fara a gwin cysegredig nad oes mo'u hangen at y cymun.

7 YR ANFON ALLAN

Gellir defnyddio'r weddi ôl-gymun a ganlyn, neu weddi arall addas

**O Arglwydd Iesu Grist,
mewn diolch, diolch dwfn,
am yr amser hwn, y lle hwn, y bobl hyn, y pryd bwyd hwn,
yr ydym yn ein cyflwyno'n hunain i ti.
Rhoddaist dy fywyd yn ein dwylo;
rhoddwn ninnau yn awr ein bywydau yn dy ddwylo di.
Cymer ni, dryllia ni ac ail-grea ni.
Bendithia ni â newyn am gyfiawnder a syched am heddwch.
Teithia gyda ni ac arwain ni ymlaen
yn gyd-bererinion ar y ffordd i'th deyrnas.
Amen.**

Distawrwydd

Bydded i Grist y Bugail da,
a roddodd ei fywyd dros y defaid,
ein dwyn ni a phawb sy'n gwrando ar ei lais
ynghyd i un gorlan.

A bendith Duw Hollalluog,
y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
Amen.

Gellir canu emyn.

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist.
Amen.

Distawrwydd

Atodiad

(Tudalen 3)

¹ Gweler *Y Calendr Newydd a'r Colectau*,
Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru, 2003.

(Tudalen 10)

² Gweler *Trefn ar Gyfer y Cymun Bendigaid*,
Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru, 2004, tt.117-131.

Aelodau'r Panel

Y Parchedig Gwynn ap Gwilym.....Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig John Henson..... Eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol
Y Parchedig Delyth Liddell Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
Y Parchedig Glyn Tudwal Jones Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Kim Fabricius Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Rhian Linecar Swyddog Ffydd, Trefn a Thystiolaeth Cytûn

Cydnabyddiaethau

Lluniwyd y gwasanaeth Cymun Bendigaid (i'w ddefnyddio yn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru) gan Banel Litwrgi Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru.

Cyfeiriodd y Panel at ystod eang o ddeunyddiau, ac y mae'n cydnabod y budd a gafwyd o hynny. Gwaith gwreiddiol y Panel yw rhannau helaeth o'r testun. Ceisiodd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru hysbysu perchenogion hawlfraint pob gwaith a atgynhyrchwyd a sicrhau eu hawdurdod i'w gynnwys. Os anwybyddwyd unrhyw waith a thorri ei hawlfraint, y mae'r Comisiwn yn ymddiheuro ac, o'i hysbysu o hynny, bydd yn cywiro'r cam wrth ailargraffu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Y Cymun Bendigaid i'w ddefnyddio yn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru

© Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru 2012.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adfer, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig na mecanyddol, na'i lungopïo na'i recordio na dim arall, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, 58 Heol Richmond, Caerdydd, CF24 3UR, ac eithrio lle y caniateir hynny'n benodol.

Gellir atgynhyrchu testun y gwasanaeth hwn i'w ddefnyddio heb dalu ffi ar yr amod na werthir y copïau, bod enw'r sefydliad ar y clawr neu'r dudalen flaen a bod cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn:

Y mae deunydd a gynhwysir yn y gwasanaeth hwn yn hawlfraint © Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru 2012.

Testunau allan o'r *New Revised Standard Version of the Bible Anglicized Edition*, © 1989, 1995, Adran Addysg Gristnogol, Cyngor Eglwysi Crist yn Unol Daleithiau America, defnyddiwyd trwy ganiatâd. Cedwir pob hawl.

Dyfyniadau o'r *Beibl Cymraeg Newydd* a'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* © Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl, defnyddiwyd trwy ganiatâd. Cedwir pob hawl.

Gweddi'r Arglwydd (yn Saesneg) © The English Language Liturgical Consultation (ELLC) 1988.